

1. Cyfansoddiad

- 1.1. Sefydlwyd Pwyllgor o'r Cyngor i'w alw'n Bwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad y Myfyrwyr (y Pwyllgor) gyda'r Cylch gorchwyl a'r rheolau sefydlog canlynol drwy benderfyniad gan y Cyngor dyddiedig 23 Medi 2021.

2. Cylch gorchwyl

Dyma fydd dyletswyddau penodol y Pwyllgor:

- 2.1. Cynghori'r Cyngor ar yr holl faterion perthnasol i gyfleoedd a chyflawniad y myfyrwyr mewn addysg uwch, gan gynnwys Cyfrwng Cymraeg, gwybodaeth i'r cyhoedd, ehangu mynediad, cydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd a lles myfyrwyr, a sgiliau a chyflogadwyedd, gyda'r nod o sicrhau bod addysg uwch Cymru'n diwallu anghenion a disgwyliadau dysgwyr a rhanddeiliaid eraill.
- 2.2. Gweithredu fel bwrdd seinio i roi gwybod i'r Cyngor am ddulliau newydd o weithredu gyda datblygu polisïau sy'n berthnasol i'r meysydd sy'n cael sylw gan y Pwyllgor.
- 2.3. Argymhell i'r Cyngor strategaethau i gefnogi Cynllun Corfforaethol CCAUC fel mae'n berthnasol i'r meysydd sy'n cael sylw gan y Pwyllgor hwn.
- 2.4. Ystyried unrhyw faterion a gyfeirir i'r Pwyllgor gan y Cyngor.

3. Rheolau Sefydlog

- 3.1. Bydd Rheolau Sefydlog safonau CCAUC ar gyfer Pwyllgorau yn berthnasol, gan gynnwys sicrhau bod cyngor yn cael ei roi yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

4. Aelodaeth a Phresenoldeb

- 4.1. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys hyd at 22 o aelodau, gan gynnwys isafswm o ddau aelod o'r Cyngor. Bydd aelod o'r Cyngor yn cadeirio'r Pwyllgor.
- 4.2. Y cworwm ar gyfer aelodau'r Pwyllgor yw 7 aelod, gan gynnwys y Cadeirydd neu ei enwebai
- 4.3. Fel rheol bydd y Cyfarwyddwr Posili a Chyllid yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.
- 4.4. Bydd aelod o'r Gyfarwyddiaeth Polisi a Chyllid yn gwasanaethu'r Pwyllgor.

5. Mynychder Cyfarfodydd

- 5.1. Bydd o leiaf dau gyfarfod y flwyddyn fel rheol.

6. Awdurdod

- 6.1. Mae'r Pwyllgor yn gorff ymgynghorol ond heb unrhyw bwerau gweithredol.
- 6.2. Bydd gan y Pwyllgor awdurdod i sefydlu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen i ddarparu cyngor fel mae'n ei ystyried yn angenrheidiol, yn berthnasol i'r meysydd sy'n cael sylw ganddo.

7. Adrodd

- 7.1. Bydd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor yn cael eu rhannu yng nghyfarfod nesaf y Cyngor, ar ôl i Gadeirydd y Pwyllgor eu cymeradwyo.
- 7.2. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar y dyletswyddau a gyflawnwyd ganddo.

8. Adolygu

- 8.1. Adolygir Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y Pwyllgor yn flynyddol, a bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu cyflwyno gerbron y Cyngor i'w cymeradwyo.

Cyfansoddiad y Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad y Myfyrwyr

Aelodau'r Pwyllgor

Cyngor

- Hyd at bedwar Aelod o'r Cyngor (Cadeirydd a dirprwy Gadeirydd)

Enwebu aelodau i'r Pwyllgor

- 2 benodiad Sefydliadol
- Cynrychiolydd sefydliad cyflogwyr neu sgiliau sector
- Unigolyn â phrofiad helaeth o yrfaedd a gwasanaethau myfyrwyr
- Cynrychiolydd cyflogwyr
- Cynrychiolydd ysgol
- Cynrychiolydd cenhadaeth ddinesig
- Cynrychiolydd myfyrwyr
- Arall: arbenigedd ehangu mynediad, os nad yw'n cael sylw gan yr aelodau eraill

Enwebu unigolyn i gynrychioli buddiannau'r rhai sy'n derbyn AU yng Nghymru

- Enwebai o'r sector AB
- Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
- Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru
- Y Brifysgol Agored
- Myfyriwr rhan amser/dysgwr aeddfed sy'n oedolyn
- Enwebai Prifysgolion Cymru – Cadeirydd y Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu
- Enwebai Prifysgolion Cymru – Is Ganghellor

Arsylwyr

- Prifysgolion Cymru
- Llywodraeth Cymru

Swyddogion

- Cyfarwyddwr Polisi a Chyllid
- Pennaeth Profiad Myfyrwyr
- Pennaeth Sgiliau a Chyflogadwyedd
- Pennaeth Ehangu Mynediad a Chynhwysiant
- Uwch Reolwr Profiad Myfyrwyr (Ysgrifennydd)

Arall

- Gwahoddir eraill i fod yn bresennol drwy wahoddiad, yn dibynnu ar y testunau a drafodir (ee, darpariaeth feddygol, astudiaethau Conservatoire, Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru, AU Ymlaen, Gyrfa Cymru, Cymdeithas Dysgu Gydol Oes y Prifysgolion)